BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Dydd Mercher, 16 Mehefin 2021

14:00 – 16:00

Microsoft Teams

Aelodau presennol:	
Enw	**Sefydliad**
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) - Cadeirydd	Cyngor Gwynedd
Dafydd Gibbard (DG)	Cyngor Gwynedd
Annwen Morgan (AM)	Cyngor Sir Ynys Môn
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Andrew Edwards (AE)	Prifysgol Bangor
Sioned Rees (SR)	Llywodraeth Cymru
Sian Williams (SW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nia Williams (NW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Bethan Russell Williams (BRW)	Mantell Gwynedd
Shan Morris (SM)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Neil Thomas (NT)	Heddlu Gogledd Cymru
Ffrancon Williams (FfW)	Adra
Cyng. Llinos Medi Huws (LlMH)	Cyngor Sir Ynys Môn
Amy Ellis (AE)	Gwasanaeth Prawf
Aled Jones-Griffith (AJG)	Grŵp Llandrillo Menai
Sian Purcell (SP)	Medrwn Môn

Yn mynychu:	
Nonn Hughes (NH)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Sophie Tyne Hughes (STH)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Cyngor Gwynedd

Ymddiheuriadau:	
Jo Whitehead	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gillian Jones	Gwasanaeth Prawf
Emyr Williams	Parc Cenedlaethol Eryri

Pwyntiau Gweithredu

1. Tîm Cefnogi'r BGC i drefnu fod diweddariadau ar gynnydd y partneriaid ar y flaenoriaeth tlodi yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr
2. Tîm Cefnogi'r BGC i addasu adroddiad blynyddol yr is-grŵp cartrefi er mwyn adlewyrchu'r gwerth ychwanegol mae'r gwaith yma wedi'i roi
3. Holl aelodau'r BGC i ddarparu unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar yr Adroddiad Blynyddol drafft i Nonn neu Sophie erbyn dydd Gwener nesaf, 25/06/2021
4. Yr is-grŵp cartrefi i ddirwyn eu gwaith i ben yn dilyn y cytundeb heddiw, gyda diolch am eu gwaith ac i Ffrancon am arwain
5. Partneriaid i drafod gyda'u cynrychiolwyr ar yr is-grŵp iaith er mwyn rhoi arweiniad a mewnbwn iddynt ar y prosiect sydd dan sylw gan yr is-grŵp i alluogi symud ymlaen â'r gwaith yma. Cynnal trafodaethau am adnoddau allai'r partneriaid eu cynnig i'r gwaith hefyd. Hyn angen digwydd cyn 30/06/21 ogydda.
6. Sophie i gysylltu gyda Nia Williams er mwyn trafod awydd CNC i fod yn rhan o'r is-grŵp iaith i'r dyfodol.
7. Sophie i wahodd Huw Jones, Cyngor Sir Ynys Môn i'r gweithdy ar 30/06/21.
8. Sian Williams i rannu'r matrics sgorio ar gyfer dewis y cymunedau dan sylw er mwyn ei gylchredeg.
9. Sian Williams i ailedrych ar y geiriad a gynigiwyd ar gyfer gweledigaeth yr is-grŵp.
10. Dafydd Gibbard i drefnu cyfarfod rhyngddo ef, Sian Williams, Annwen Morgan a swyddogion perthnasol eraill er mwyn trafod y ffordd ymlaen gyda'r is-grŵp newid hinsawdd. Sian Williams i gyflwyno adroddiad pellach ar hyn yn y dyfodol yn dilyn y cyfarfod hwnnw.
11. Partneriaid y BGC i rannu pwyntiau cyswllt perthnasol yn eu sefydliadau gyda Nonn er mwyn hwyluso cyswllt mewn perthynas â'r Asesiadau Llesiant.
12. Nonn a Sophie i symud ymlaen gyda threfniadau'r Asesiadau Llesiant yn dilyn y drafodaeth heddiw.
13. Partneriaid i roi gwybod i Nonn am unrhyw waith ymgysylltu sydd wedi digwydd ganddynt yn ddiweddar neu a fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf. Hyn i ddigwydd cyn gynted a phosib ogydda.
14. Nonn/Sophie i rannu amserlen cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd gydag arweinyddion yr is-grwpiau er mwyn sicrhau mwy o amser i ystyried cynnwys adroddiadau a chyfieithu'n amserol.

Cofnod o'r drafodaeth

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1	**Croeso ac Ymddiheuriadau** Croesawyd yr holl fynychwyr i'r cyfarfod a derbyniwyd yr ymddiheuriadau a nodir uchod. Croesawyd Dafydd Gibbard ac Amy Elis fel aelodau newydd i'r Bwrdd.		
2	**Cylch Gorchwyl –** dim materion yn codi		

3	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf** Derbyniwyd y cofnodion fel adlewyrchiad teg o'r drafodaeth. Cafwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu: 1. Dilwyn Williams ac Annwen Morgan i rannu canfyddiadau eu gwaith ar eu cynlluniau twristiaeth gynaliadwy gyda'r BGC pan yn briodol. Cytunwyd i DW/AM ymgynghori gyda rhai sefydliadau o'r BGC i gasglu tystiolaeth o'r pwysau ychwanegol grëwyd gan dwristiaeth dros fisoedd yr haf. • *Nododd AM fod argyfwng Covid-19 wedi gwneud 2020-21 yn heriol iawn o ran rheoli ymwelwyr ac effeithiau hynny ar yr ynys ac ar gymunedau. Nododd hefyd fod nifer o benderfyniadau anodd ac ymatebol wedi gorfod cael eu gwneud gan y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch staff a llesiant trigolion, yn ogystal â lleihau tensiynau cymunedol. Fodd bynnag nodwyd fod diffyg data i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth a bod angen gwella trefniadau, yn enwedig o safbwynt cydweithio a rhannu gwybodaeth, er mwyn medru paratoi'n well i'r heriau yma eleni. Nodwyd fod y Cyngor wedi penodi i redeg eu Cynllun Rheoli Ymwelwyr newydd.* • *Nododd DG fod Gwynedd yn debyg iawn i Fôn ond wrth gwrs mae lot o Wynedd mewn Parc Cenedlaethol. Nodwyd bod trafodaethau ar y gweill i ddod a strategaeth dwristiaeth gynaliadwy ar y cyd at ei gilydd. Bydd yn diweddaru'r BGC ymhellach i'r dyfodol.* • *Nododd SW ei dymuniad i CNC gael bod yn rhan o unrhyw weithredu yn y maes, yn benodol yng Ngwynedd. DG i gysylltu pan yn briodol.* 2. Tîm Cefnogi BGC i gydweithio gyda'r is-grwpiau er mwyn llunio Adroddiad Blynyddol y BGC – *ar yr agenda* 3. Nonn Hughes a Nia Williams i drafod sut all y datganiadau ardal fwydo mewn i'r asesiadau llesiant *- ar yr agenda* 4. Aled Jones Griffith i rannu ffigurau tlodi digidol er mwyn eu cylchredeg i aelodau'r BGC - *wedi eu cylchredeg ar e-bost. Annwen Morgan wedi holi cwestiynau pellach am oedrannau hŷn a'r ymholiad wedi'i basio ymlaen at griw data ac ymchwil Cyngor Gwynedd er mwyn ei gyflawni fel rhan o'r gwaith ar yr Asesiadau Llesiant.* 5. Dilwyn Williams ac Annwen Morgan i ystyried sut all y cyrff eraill eu helpu ar yr agenda tlodi – *ar yr agenda* 6. Annwen Morgan i gysylltu gyda Shan Morris i drafod mewnbwn posib y Gwasanaeth Tân yn y maes tlodi *– trafodaeth wedi digwydd* 7. Aled Jones Griffith i weithio gyda'r is-grŵp iaith Gymraeg er mwyn cyflwyno cylch gorchwyl i gyfarfod nesaf y BGC *- cylch gorchwyl wedi ei gylchredeg a'i gytuno'n rhithiol. Ar yr agenda*	DG DG/SW	

	8. Emyr Williams a Nia Williams i drafod sut i roi ystyriaeth i fywyd gwyllt fel rhan o waith yr is-grŵp Newid Hinsawdd yn symud ymlaen *– ar y gweill* 9. Nia Williams/Justin Hanson i ddod a strategaeth yr is-grŵp Newid Hinsawdd yn ôl i gyfarfod nesaf y BGC ym mis Mehefin, gyda gwybodaeth am y gwersi sydd wedi eu dysgu o Fairbourne ac o beilot Pwllheli. - *ar yr agenda* 10. Aelodau'r BGC angen amser i roi ystyriaeth a sylwadaeth ar cynllun gweithredu yr is-grŵp newid hinsawdd. Pob aelod i anfon eu sylwadau ymlaen cyn y cyfarfod nesaf. - *ar yr agenda* 11. Ffion Johnstone i ystyried pa gefnogaeth sydd ei angen gan weddill yr aelodau mewn perthynas a symud rhwystrau ar gyfer yr is-grŵp iechyd a gofal – *ar yr agenda* 12. Ffion Johnstone i ystyried a oes angen addasu'r cylch gorchwyl a'r aelodaeth ar gyfer yr is-grŵp iechyd a gofal o ystyried y ffaith fod y grŵp wedi bod yn fwy gweithredol *- gwaith yn mynd rhagddo. Ar yr agenda.* 13. Yr is-grŵp iechyd a gofal i ymateb i'r cais o ddangos sut mae gwaith yr is-grŵp wedi ymateb i'r briff gwreiddiol a roddwyd iddynt gan y BGC – *ar yr agenda* 14. Holl aelodau'r BGC i roi gwybod i Nonn am unrhyw waith ymgysylltu sydd wedi ei raglennu ganddynt yn y 6-12 mis nesaf *- ymatebion yn isel iawn ar hyn o bryd, felly'r cais yma yn parhau ac ar frys. Ar yr agenda* 15. Tîm cefnogi'r BGC i gydweithio efo'r Cynghorau, ar eu trefniadau cychwynnol ar gyfer cynnal yr asesiadau llesiant. - *ar yr agenda*		
4	**Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn** Cyflwynodd NH yr adroddiad drafft gan roi trosolwg o'i gynnwys a'r modd y mae wedi'i strwythuro. Cadarnhawyd y bydd tîm cefnogi'r BGC yn addasu'r rhan ynghylch 'Cartrefi ar gyfer bobl leol' drwy sicrhau fod gwerth ychwanegol yn cael ei amlygu (mater a gododd fel rhan o eitem 5a) Gofynnodd NH i'r aelodau ddarparu sylwadau i dim cefnogi'r BGC erbyn 25/6/21 er mwyn medru symud ymlaen i'w gyhoeddi.	NH/STH **Pawb**	cgaph **25/6/21**
5a	**Adroddiad 'Cartrefi ar gyfer bobl leol' - Ffrancon Williams** Cyflwynodd FfW yr adroddiadau sydd wedi eu cynnwys yn y papurau gan dynnu sylw at brif gasgliadau'r gwaith hyd yma, y rhwystrau sydd wedi dod ar eu traws a'r prif llwyddiannau, gan gynnwys y datblygiad sylweddol yng ngallu a threfniadau cydweithio'r prif gyrff. Cyflwynodd FfW yr argymhelliad i gytuno i ddod a gwaith yr is-grŵp cartrefi i ben gan nad yw'r grŵp yn teimlo y gallent ychwanegu mwy o werth i'r hyn mae'r sefydliadau arweiniol yn arwain arno yn barod. Ategodd DG y pwyntiau hyn. Diolchodd FfW i Brenda Brighouse y swyddog prosiect sydd wedi cynorthwyo'r grŵp ac i'r ddau awdurdod lleol ac Adra am gyd-ariannu'r swydd.		

	Ychwanegodd BRW fod pryderon yn aml am y diffyg gwerth ychwanegol mae rôl y BGC yn ei gynnig ond mae'n ymddangos fod gwerth ychwanegol sylweddol wedi bod o ganlyniad i gwaith y grŵp yma. Nodwyd fod angen pwysleisio hyn yn yr adroddiad blynyddol. Cynigiodd LIMW i dderbyn yr argymhelliad i ddod a gwaith yr is-grŵp cartrefi i ben, ac eiliwyd y cynnig gan DS. Diolchwyd yn fawr i FfW am arwain y gwaith hwn dros y cyfnod diwethaf a cadarnhawyd fod y gwaith wedi dod i ben.	NH/STH FfW	cgaph
5b	**Adroddiad 'Y Gymraeg' - Aled Jones-Griffth** Cyflwynodd AJG yr adroddiad yn y pecyn gan gyfeirio at y ffaith fod yr is-grŵp wedi adolygu'r cylch gorchwyl i sicrhau eglurder. Cyfeiriodd hefyd at y prosiect a gyflwynwyd ym Mawrth 2020 ac awydd yr is-grŵp i ddatblygu'r prosiect hwn a parhau ag o. Gofynnodd AJG i'r aelodau siarad ag aelodau'r is-grŵp cyn gweithdy'r is-grŵp ar 30/06/2021 i roi arweiniad iddynt ar eu barn a'u disgwyliadau o'r prosiect. Bydd hyn yn galluogi'r is-grŵp i ddod a phrosiect diwygiedig sydd â gwerth ychwanegol gerbron y BGC cyn gynted a bo modd. Gofynnodd AJG hefyd i'r aelodau gynnal trafodaethau ynghylch adnoddau, gan bwysleisio pwysigrwydd nad yw'r bil yn landio ar yr awdurdodau lleol a bod angen ymrwymiad llawn a llwyr gan yr holl bartneriaid. Holodd DS beth fyddai cost y gwaith. Cadarnhaodd AJG nad yw hynny'n sicr eto gan ein bod wedi methu symud ymlaen i greu cynllun prosiect diwygiedig ond ei fod yn awyddus i'r sefydliadau ddechrau ystyried eu gallu i gyfrannu. Nododd DS ei fod yn croesawu'r gwaith. Cytunodd AM ei bod yn gefnogol i waith y grŵp ac yn awyddus iddo barhau. Nododd mai Huw Jones fydd yn mynychu'r cyfarfod ar y 30/06/21 yn lle Carol Wyn a gofynnwyd i Sophie sicrhau fod gwahoddiad wedi'i anfon. Nododd SW ddiddordeb i CNC fod yn rhan o'r gwaith yn symud ymlaen. Sophie i gael sgwrs efo Nia yn y man cychwyn.	**Pawb sydd yn rhan o'r is-grŵp** STH STH	**Cyn y 30/06/21** cgaph
5c	**Adroddiad 'Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau' - Sian Williams** Cyflwynodd SW gynnwys yr adroddiadau sydd wedi eu cynnwys yn y papurau gan egluro'r rhesymeg dros ddewis y dair cymuned dan sylw. Nodwyd fod gwaith ymgynghori wedi'i gychwyn ym Mhorthmadog hefyd gan CNC a'i bod felly yn cynnig ychwanegu'r dref fel pedwerydd cymuned. Gofynnodd SW am gytundeb i fwrw ymlaen i weithio â'r pedwar cymuned yma. Y bwriad fyddai i gynnal gweithdai gyda rhanddeiliaid yn yr ardaloedd ac wedyn sgyrsiau'n ehangach â'r cyhoedd. Nododd ei bod yn bwysig rhoi momentwm y tu ôl i'r gwaith yma rŵan yn dilyn oedi a beirniadaeth cenedlaethol nad oes digon o sylw i Newid Hinsawdd. Cyflwynodd nifer o'r partneriaid bryderon yn ymwneud yn bennaf â: • Chodi gobeithion neu ddisgwyliadau cymunedau lle nad oes ganddynt rym i ddylanwadu ar benderfyniadau ymhob sefyllfa. • Nad yw'n glir beth sy'n ddisgwyliedig ar ddiwedd y gwaith. • Geiriad y weledigaeth sydd wedi ei mabwysiadu (oherwydd y pwynt cyntaf uchod).		

	• Beth oedd y matrics sgorio wrth ddewis y cymunedau hyn dros gymunedau sydd efallai mwy wrth risg o lifogydd. • A yw briff y prosiect yn rhy eang ac ai ymateb i risg llifogydd ddylai o fod yn hytrach na newid hinsawdd yn gyffredinol, yn enwedig o ystyried fod gan yr awdurdodau lleol eu cynlluniau ymateb eu hunain. Mewn ymateb, nodwyd: • Bod gwersi i'w dysgu o waith blaenorol mewn perthynas â chodi gobeithion ac y byddai'r is-grŵp yn sicrhau ei fod yn gliriach y tro hwn beth all y cymunedau ddylanwadu arno a beth na allent wneud hynny. • Ei bod yn bwysig peidio a darparu atebion cyn holi barn y cymunedau ac felly mai ffocws y cynllun yw'r gwaith cychwynnol dros y flwyddyn nesaf. • Bod SW yn cytuno gyda'r pryderon am y weledigaeth ac y bydd yr is-grŵp yn ailedrych ar y geiriad. • Y bydd SW yn rhannu'r matrics sgorio a ddefnyddiwyd yn dilyn y cyfarfod, ond eu bod wedi bod yn awyddus i ddewis mathau gwahanol o gymunedau, nid rhai ar dop y rhestr yn unig. • Bod cyfarfod wedi ei drefnu rhwng CNC a Chyngor Gwynedd a bod cyfle i drafod gyda Chyngor Môn ar ôl hynny hefyd. Ychwanegodd AJG y byddai'n barod iawn i drefnu sesiynau ymgysylltu/addysgu gyda dysgwyr Coleg Menai/Meirion Dwyfor yn Llangefni a Dolgellau pe bai hynny o unrhyw fudd. SW i gysylltu ag o pan yn briodol felly. **Penderfyniad:** • DG i drefnu sgwrs bellach ag AM a SW a swyddogion perthnasol i ddiffinio'r prosiect yn fwy cadarn. • SW i gyflwyno adroddiad pellach yn dilyn y drafodaeth honno pan fo'r cynllun yn fwy aeddfed.	SW SW SW DG SW	cgaph cgaph cgaph
5d	**Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau** Nodwyd fod y BGC wedi gofyn i'r cynghorau dynnu bobl mwy i mewn i gwaith tlodi. Nododd AM ei bod wedi trafod efo SM ynghylch rôl y Gwasanaeth Tân. Nododd hefyd ei bod yn teimlo mai cyfleon a phrofiadau'r byd gwaith sydd ei angen fwyaf gan y partneriaid, yn enwedig yn ystod y cyfnod o adfer. Gofynnwyd i'r ddau gyngor ddarparu adroddiad cynnydd ar y gwaith tlodi yn symud mlaen, ond fod angen i'r partneriaid eraill fod yn ystyried eu rôl nhw hefyd. NH/STH i sicrhau fod hyn yr adroddiadau cynnydd hyn ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y BGC ym Medi neu Rhagfyr.	AM/DG NH/STH	erbyn Medi/ Rhagfyr
5e/f/g	**Adroddiad Iechyd a Gofal – Ffion Johnstone** Nodwyd mai'r is-grŵp yw'r unig grŵp yn y maes sy'n adrodd i'r BGC, thra fod yr holl rai eraill yn adrodd yn rhanbarthol ac felly mae trio cadw ffocws lleol tra'n alinio'n rhanbarthol yn her i'r is-grŵp yma. Nodwyd fod cyfarfodydd wedi bod gyda Morwena Edwards a Fôn Roberts ar symud y gwaith yn ei flaen a bod trafodaethau wedi bod â thîm cefnogi'r BGC hefyd. Nodwyd fod yr adroddiad yn egluro'r		

	hyn sydd wedi dod o'r cyfarfodydd hynny, gan gynnwys sefydlu grŵp data a gwybodaeth newydd. Nodwyd fod y grŵp **oedolion** yn ailedrych ar cylch gorchwyl ac yn mapio'r hyn sydd wedi digwydd ar draws yr argyfwng etc. Rhan o gwaith y grŵp yma ydi sut ydan ni'n symud ymlaen ar ôl i rai grantiau ddod i ben. Nodwyd fod sefydliadau trydydd sector wedi eu gwahodd i gyflwyno cais i redeg cynllun gwydnwch cymunedol yn y maes **plant** gyda'r nod o helpu teuluoedd ailintegreiddio efo'u cymunedau a chynnig cymorth cynnar ac ataliol. Nodwyd hefyd fod gwaith peilota'n digwydd ar hyn o bryd lle mae ymarferwyr **iechyd meddwl** yn gweithio â meddygon teulu yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Nododd DS ei fod yn bryderus fod rhaid alinio â'r gwaith rhanbarthol yn hytrach na medru canolbwyntio ar yr elfen leol ond fod hynny ddim yn rheolaeth yr is-grŵp. Cytunodd y BGC eu bod yn derbyn y cyfeiriad sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.		
6	**Cyflwyniad ar y datganiadau ardal – Nia Williams** Rhoddodd Nia Williams gyflwyniad ar y datganiadau ardal a sut y byddent yn gallu bwydo mewn i'r Asesiadau Llesiant. Nodwyd fod ganddynt wybodaeth o'u hadroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020, y gwaith ymgynghori ar y Datganiadau Ardal a gallent rannu eu pecyn cymorth Tri Gorwel. Diolchwyd i Nia a Sian am eu cyflwyniad gan nodi ei bod yn bwysig sicrhau fod yr wybodaeth yma'n rhan o'r Asesiadau Llesiant. Bydd tîm cefnogi'r BGC yn parhau i gyfathrebu â nhw yn hynny o beth.	NH/STH	
7	**Diweddariad ar Asesiadau Llesiant Gwynedd a Môn** Cyflwynodd NH y papur sy'n amlinellu'r opsiynau ar gyfer ymgysylltu cychwynnol yr Asesiadau Llesiant. Gofynnodd NH am benderfyniad gan y BGC am y gwaith ymgysylltu cychwynnol hyn. Os yn dewis opsiwn 1 neu 2 mae'n hanfodol i bawb ymrwymo i rannu'r wybodaeth gan y bydd yr asesiadau yn ddibynnol ar hyn. Gwnaed gais pellach i'r sefydliadau roi gwybod i ni am unrhyw waith ymgysylltu dros y misoedd nesaf gan ofyn i bawb wneud hynny cgaph. Gofynnwyd hefyd i'r partneriaid anfon enwau eu pwyntiau cyswllt o ran unrhyw waith ymgysylltu at NH. Nododd AM fod cymaint o waith wedi digwydd ym Môn o ran y rhaglen cynllunio lle a gofynnodd am gefnogaeth SP i gytuno ar opsiwn 2, ond bod holiadur hefyd yn cael ei lunio i ychwanegu at yr wybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â chymunedau sydd heb ymwneud â'r gwaith. Cadarnhaodd SP ei bod eisoes wedi cytuno i rannu gwybodaeth ynghylch y gwaith yma. Nododd DG ei fod yn ffafrio opsiwn 1 gan nad yw'n awyddus i ddyblygu gwaith a bod gwaith manwl iawn yn digwydd yn y cyngor ac mewn sefydliadau eraill megis CNC. Os y bydd bwlch yn parhau ar ôl hynny, byddai'n cytuno i fynd ati i lenwi'r bwlch wedyn. Cytunwyd mai Opsiwn 2 sydd fwyaf ffafriol felly gyda, o bosib, rhywfaint o amrywiaethau rhwng yr hyn fydd yn digwydd yng		

	Ngwynedd ac yn Ynys Môn. Tîm cefnogi'r BGC i symud ymlaen â'r gwaith yma felly.	NH/STH	
8	**Trefniadau gweithio'r cyrff cyhoeddus yn dilyn Covid-19** Nodwyd fod na ffrwd gwaith wedi'i sefydlu yn rhanbarthol bellach er mwyn trafod hyn, a'i fod yn cael ei gadeirio gan Geraint Owen, Cyngor Gwynedd. Cytunwyd felly fod hyn mewn llaw.		
9	**Cynllunio Rhanbarthol ar gyfer adfer: Gwytnwch Cymunedol** Nodwyd fod Grŵp Prif Weithredwyr wedi gofyn am ddiweddariad ar y mater hyn a bod NH yn bwriadu adrodd fod y Bwrdd wedi drafod dros 30 o faterion sy'n effeithio ar lesiant ar hyn o bryd, gan edrych yn fanylach ar 8 ohonynt. Fodd bynnag, cytunwyd nad oedd rôl penodol i'r BGC ychwanegu at y gwaith oedd eisoes yn digwydd.		
10	**Heriau a Chyfleon – eitem sefydlog** Tynnodd SR sylw at y ffaith fod rhaglen y Llywodraeth wedi'i chyhoeddi a bod elfennau o'r gwaith yn lincio gyda gwaith a blaenoriaethau'r BGC yma. https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026		
11	**Unrhyw Fater Arall** • **Amserlen cyflwyno adroddiadau BGC** Er mwyn hwyluso gwaith arweinyddion yr is-grwpiau a thîm cefnogi'r BGC, nodwyd fod bwriad i gyflwyno amserlen cyflwyno adroddiadau i sicrhau digon o amser i drafod cynnwys yr adroddiadau a gallu eu rhannu gyda'r partneriaid yn amserol. • **Briff Teithio Llesol** Wedi ei gylchredeg er gwybodaeth am y tro ond nodwyd fod cais i'r BGC ymrwymo i'r siarter ym mis Tachwedd.	NH/SAH i gylchredeg	cgaph